

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y we, Nos Fawrth y 11eg o Awst 2020 .

Agenda

- 1. Presennol:** Sian Dafydd (Cadair), Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo; Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Justin Davies – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir; Peter Simpson – Swyddog Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd (eitem 3), Nia Jones – Clerc newydd yn eistedd i mewn / **Ymddiheuriadau:** Harry Wyn Owen – Talysarn, Dylan Herbert – Penygroes a Justin Davies yn ymddiheuro na fyddai yn gallu ymuno yn y cyfarfod tan 8.00
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
- 3. Gwadd: Peter Simpson – Cyngor Gwynedd** Croesawyd Peter Simpson i'r cyfarfod. Y pwnc dan sylw oedd y man ailgylchu ym Mhenygroes. Dywedodd fod 64 achos tipio anghyfreithlon ar y safle wedi eu cofnodi yn y flwyddyn ddiwethaf, a bod arwyddion yn bygwth dirywion ac yn y blaen ddim wedi gwneud gwahaniaeth. Ers Mehefin, mae 25 unigolyn wedi eu dal yno efo camera, a dirwy o £500 yr un. Dywedodd fod y rhan fwyaf o bobl sydd yn tipio yn teithio i'r safle mewn cerbydau, ac felly does dim esgus I beidio a mynd a'r gwastraff i'r safle ailgylchu yn Cibyn, neu yn Garndolbenmaen. Dywedodd fod y gwasanaeth derbyn gwastraff ailgylchu yn raddol yn dod yn ol yn sgil effeithiau'r pandemig. Dywedodd fod cost mawr i'r Cyngor wrth orfod gyrru swyddog i lanhau'r safle ym Mhenygroes bob yn ail dydd bron. Dywedodd fod warden gorfodaeth yn ymweld a Penygroes bron bob dydd. Rhoddodd esiamplau o'r pethau sy'n cael eu gadael – oergellau, matresi, gwresogyddion – pob math o bethau. Dywedodd fod Penygroes y lle gwaethaf yng Ngwynedd am tipio. Mynegodd y Cynghorwyr bryder y gallai cau'r safle biniau ailgylchu ym Mhenygroes arwain at fwy o achosion tipio slei bach mewn cilfannau ac ar dir preifat. Fe ddywedodd Peter, os yw'r Cyngor Cymuned yn teimlo fod yr adnodd yn hynod bwysig, efallai ystyried cymryd rhan mewn rheoli'r safle. Dywedodd fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn trio tacllo'r broblem sydd yn y safle biniau ym Mhenygroes ers 5 mlynedd, ac nad ydy yn gynaliadwy i gario ymlaen i roi dirwyon. Dywedodd hefyd fod cau safleoedd eraill HEB arwain at fwy o achosion tipio, ac yn hytrach bod yr effaith i'w weld wedi lleihau'r broblem. **Roedd dau gynnig gan Cyngor Gwynedd – 1. O weld effaith cau banciau ardaloedd eraill – wyrach cau banciau Penygroes, 2. Cyngor Cymuned yn rol yn rheoli'r safle.** Nid oedd Peter wedi llwyddo i lawrlwytho'r cyflwyniad a oedd wedi ei baratoi ar gyfer heno, ond fe fyddai yn ei ebostio ymlaen i'r Clerc i'w rhannu efo'r Cynghorwyr. Am y rheswm yma, **penderfynodd** y Cynghorwyr drafod mis nesaf ar ol cael cyfle i ystyried y ffeithiau yn llawn wedi cael cyfle i ddarllen y ddogfen. Holodd Gwyndaf am y rheol nad yw faniau bach yn cael mynd i'r safleoedd ailgylchu yn Garndolbenmaen a Cibyn, ac ategodd Erfyl hyn gan ddweud bod rhai trigolion yn defnyddio faniau fel cerbydau preifat – dywedodd Peter fod rheoliadau yn datgan pa fath o gerbydau sy'n cael mynd i'r canolfannau ailgylchu, ac awgrymodd y dyliwn ni lythyru Steffan Jones, Cyngor Gwynedd yn gofyn am hyn; Roedd amheuaeth fod arwydd 'Tip Cilgwy' heb ei dynnu o'i safle - Peter am ddilyn hyn i fyny. Gadawodd y cyfarfod.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfodydd Mehefin a Gorffennaf.** Cyfenw Iona yn anghywir ar y cofnodion – i fod yn Jones. Gwyndaf yn cynnig y cofnodion yn gywir, a Hefina yn eilio.
- 5. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad gan Judith – fe ddywedodd bod Cadw Cymru'n Daclus yn ystyried cais gan Ffrindiau Penygroes i dirlunio llecyn ym mynwent MacPelah. Penderfyniad i fod i gael ei wneud wythnos yma. Y Cyngor yn ddiolchgar iawn i Judith ac i Ffrindiau Penygroes am wneud hyn. Cafwyd adroddiad gan Craig – fe ddywedodd fod y bin newydd a gafodd ei osod yn y pentref wedi diflannu eto. Fe soniodd am y guinea fowl sydd ar y lon. Dywedodd ei fod yn derbyn cwynion am faterion cynllunio yn ymwneud a un eiddo yn Nebo. Diolchwy Judith am ei gwaith caled o ymgyrchu i gael goleuadau yn y maes parcio dros y ffordd i'r Co-op, a nawr eu bod yn eu lle, maen nhw yn effeithiol iawn.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Dim yn codi.
- 7. Tal am Ddringo'r Wyddfa** Darllenodd OP ei gyflwyniad, a'i gynnig i alw ar y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Arweinydd Cyngor Gwynedd – i alw cyfarfod gyda rhanddeiliaid Yr Wyddfa yn Siambr y Cyngor fis Hydref, i drafod sut mae modd codi tal, ac elwa llawer mwy ar ymwelwyr sy'n cerdded yr Wyddfa. OP yn cynnig bod copi o'r cyflwyniad yn cael ei yrru at y Cynghorau eraill yng Ngwynedd – Erfyl yn eilio. Gyrru copi hefyd i Sian Gwenllian a Hywel Williams. Pawb yn cytuno.

8. Capel Moreia, Llanllyfni OP yn darllen ei gyflwyniad – i’w yrru at sylw Craig ab Iago, Deilydd Portffolio Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a chopi i’r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd a Sian Lloyd Williams, Prif Weithredwr Cwmni Cynefin. Siom am yr hysbyseb am Gapel Moreia – galw i’r Awdurdodau cynllunio i reoli a chyfyngu’r canran o dai haf, yn enwedig felly yng nghanol pentre ac hefyd galw i gynyddu’n sylweddol y nifer o dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn Dyffryn Nantlle, yn arbennig felly pobl ifanc. Pawb yn cytuno.

9. Ymuno aelod newydd y Cyngor Cymuned efo’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol / Cyfnod Trosglwyddo Swydd Clerc Penderfynwyd yn unfrydol i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i ymuno Nia Jones (y Clerc newydd) yn aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

10. Ystafelloedd Newid, Talysarn Diweddariad – Sian yn datgan fod y cyfreithiwr wedi paratoi dogfen ildio, a’i bod wedi ei gyrru at Cyngor Gwynedd.

11. Goleuadau Nadolig Gwyndaf wedi ceisio cysylltu eto efo’r trydanwr eto. Gofynwyd am awgrym arall, a OP yn cynnig ein bod yn cysylltu efo Dale, a gofyn i Scottish Power i ddad-gysylltu y trydan. Gofynwyd i’r Clerc gysylltu efo Dale a gofyn wrtho os y byddai yn fodlon siarad efo Dylan (Herbert) a symud ymlaen I ddad-gysylltu’r trydan a chael pris i wireddu y cynllun goleuadau Nadolig.

12. Cors y Llyn – Cynllun Canglwm – diweddarau trafodaethau. Cyfarfod ar y gweill i drafod y cynllun. Angen gweld pa offer ychwanegol sydd ei angen. Dywedodd Dafydd y byddai yn rhaglen 4 blynedd o leiaf. Wedi ymweld a mynwent Llanllyfni, a chadarnhau nad Canglwm oedd yn tyfu yno. Gofyn os bydd y grwp yn fodlon lladd chwyn i’r Cyngor Cymuned fel rhan o’u cynllun a chais am nawdd ariannol.

13. Gwasanaeth Torri Gwair yn y Pentrefi Derbyniwyd ebost gan Gyngor Cymuned Llandwrog efo’r cynnig fod Cynghorau Cymuned yn cymryd drosodd rhai agweddau o dorri gwair yn y pentrefi gan Cyngor Gwynedd. Wedi ystyried hyn yn ofalus (cyflogi, gwasanaethau Cyngor Gwynedd, cyfrifoldeb ar Cynghorwyr Cymuned sydd yn wirfoddolwyr) **penderfynodd** y Cyngor yn erbyn.

14. Materion Pentrefi Llanllyfni Loriau mawr yn tramwyo i fyny o Petris, Talysarn i Tanyrallt, a gan bod y ffordd yn rhy gul, wedi gorfod bagio yn ol i lawr. Gofyn wrth Cyngor Gwynedd am arwydd i rybuddio bod y ffordd yn anaddas i gerbydau llydan / lorïau ; Tyllau yn y ffordd yn Pontcrychddwr wedi eu llenwi.

Nebo cerrig wedi disgyn o wal rhwng Ffordd Penchwarel a Ffordd Nebo, ac yn beryglus; Cwynion am achos cynllunio fel ag yn adroddiad Craig ab Iago, a bod hwn yn fater cyfreithiol.

Penygroes Parcio yn gwaethygu o flaen Spar ac yn ei gwneud yn beryglus wrth droi o Ffordd Llwyndu. Ceir yn parcio ar y llinellau dwbl. Rhai cerbydau wedi eu parcio wrth y siop drwy’r amser, a ddim yn cadw at y cyfyngiad amser – hyn yn arwain at y broblem; Pryder nad yw biniau baw ci yn cael eu gwagio mor aml ym Mhenygroes, a bod baw cwn yn gorlifo o’r bin wrth Clwb Bach.

Nantlle Cerbydau yn cael eu parcio yn y lle troi ar ol Tai Nantlle cyn y troead am Dorothea. Gofyn am arwydd ‘dim parcio, lle troi’.

Talysarn Baw ci ym mhobman.

15. Taflen Ariannol a Chyllid I’w gyrru dros ebost i’r Cynghorwyr. Sian (Cadeirydd) yn cynnig a Barry yn eilio y bydd angen newid swyddogion ar y cyfrifon banc – diddymu manlyion Alwen fel Clerc sy’n gadael, ac ychwanegu Nia Jones, sef y Clerc newydd. Pawb yn cytuno. Gofynwyd i Alwen ddechrau holi. Mae’r Cyngor Cymuned efo trefniadau bancio dros y we – roedd Alwen wedi holi yn y banc am sut i ddiweddarau swyddogion, ac fe ddywedwyd wrthi bod angen gwneud bob dim ar lein.

16. Seddi gwag dyddiad cau 14 Awst. Os na ddaw cais am etholiad erbyn y 14eg o Awst, bydd y Cyngor yn rhydd i gyfethol.

17. Cynllunio: Ceisiadau sydd wedi dod ger bron dros y cyfnod clo – dyma restr o’r ceisiadau a dderbyniwyd a’r sylwadau: C20/0160/22/LL – Fferm Bryn Llwyni – derbyn; C20/0553/22/DT – 6-8 Ffordd yr Orsaf, Penygroes – Dim gwrthwynebiad; C20/0559/22/DT – 59 Stryd Fawr, Penygroes – dim gwrthwynebiad; C20/0509/22/DT – Ty Mawr Neb o – dim gwrthwynebiad; C20/0486/22/YA – Fferm Taldrwst – Cymeradwyo; C20/0378&0377/22/LL – Lleuar Fawr, Llanllyfni – Cytuno; C20/0413/22/LL – Ffridd Nantlle – Dim gwrthwynebiad; C20/0381/22/LL Rhan cae 7971 Penygroes – pryder sw’n cwn, a dadleuol pam fod angen ail adeilad amaethyddol – gwrthwynebu; C20/0126/22/HD – Express Cars, Penygroes – sylwadau parthed amseru er mwyn lleihau risg llwch asbestos i blant yn y feithrinfa gyfagos; C20/0273/22/CC – Dorothea – cytuno; C20/0321/22/DT – Plas Du, Talysarn – Dim gwrthwynebiad.

18. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis Is-bwyllgor mynwentydd – rhoddwyd y cynnigion ger bron y Cyngor llawn, a chytunwyd i’r argymhellion. OP yn datgan ei fod yn paratoi’r ddogfen dendro, a bod angen ystyried rhoi amod bod rhaid i unrhyw gontractiwr sydd a ddiddordeb mewn tendro am

y gwaith ymweld a'r fynwent efo 2 aelodo'r Cyngor. Pawb yn cytuno. Hefyd mae angen ystyried beth i wneud efo'r strip tir wrth y tro yn y lon newydd - unai rhoi membrane a gro, chwistrellu chwynladdwr yn gyson neu gadael yn wair (gan ystyried y gall fod yn rhwystredig i beiriant torri gwair). **Penderfynwyd** gadael y llecyn yn wair. Bydd yn rhaid hybysebu rwan i gael contractwyr i holi am y tendr, gan bod angen amcan o'r pris i fedru gwneud penderfyniad ar fenthyciad, a bod enw a chyfeiriad y Clerc newydd yn cael ei roi ar y dogfennau. Pawb yn cytuno.

19. Gohebiaeth – Cylchredwyd i'r Cyngorwyr drwy gydol y mis – dim sylwadau.

20. Llwybrau a Mynwentydd – Tirlunio MacPelah Ffrindiau Penygroes wedi gwneud cais am arian tuag at tirlunio llecyn yn MacPelah; Tyllau angen eu llenwi mewn dau fedd yn Gorphwysfa – y gwaith yma wedi ei wneud gan y contractwyr. Diolch i Harry am drefnu.

21. Materion yn ymwed a'r heddlu. Dim ar hyn o bryd, ac efallai trafod pan fydd y Cyngor yn gallu cyfarfod unwaith eto efo'i gilydd mewn ystafell.

22. Materion ariannol – Biliau – A Johnson Ffon/Rhyngrwyd Mawrth, Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst £150 – cytuno talu; A Johnson derbynebau - dim;

23. Ceisiadau am Arian – Dim.